

Facebook

Ers rhai wythnosau hefyd mae gennym dudalennau *Facebook* ar gyfer eglwysi'r Ofalaeth.

Bwriedr eu defnyddio i dynnu sylw at waith yr eglwysi.

Dyma fanylion y tudalennau a grewyd hyd yma.

Capel Coch: 'Capel Coch Llanberis'

Carmel: 'Capel Carmel, Llanllechid'

Bethlehem: 'Capel Bethlehem, Talybont'

Bocs bwyd

Rydym yn dal i dderbyn bwydydd yn Capel Coch at Fanc Bwyd Caernarfon.

Clywsom lawer dros y misoedd diwethaf am y defnydd cynyddol a wneir o'r Banc Bwyd ar draws y wlad. Mae hwn wedi datblygu yn wasanaeth gwerthfawr ac yn gymorth mawr i deuluoedd ac unigolion sy'n cael trafferth o bryd i'w gilydd i brynu bwyd.

Y mis nesaf - Deiniolen

Awst 28

5.00 p.m. - Y Parchg Gwynfor Williams

Medi 4

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Medi 11

5.00 p.m. - Y Parchg Idris Thomas

Gallwch roi'r bwydydd yn y bocs casglu sydd yng nghyntedd Capel Coch.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Awst 28: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwynfor Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Awst 28: Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

REHOBOTH

Dydd Sul, Awst 28: Ni chynhelir oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Sul, Awst 28: Ni chynhelir oedfa.

CARMEL

Dydd Sul, Awst 28: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Y mis nesaf - Llanberis

Awst 28

10.00 a.m. - Y Gweinidog

Medi 4

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
- Y Parchg Eifion Williams

Medi 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 693: Dydd Sul, 21 Awst, 2016

O'r Ewros i'r Sioe Fawr i'r Eisteddfod a'r Olympics, haf o gystadlu brwd fu hi eleni. Dathlwyd buddugoliaethau a llwyddiannau o bob math. Fwy na thebyg fod rhai wedi cael cam. Roedd ambell un o'r bocswyr yn Rio er enghraifft o'r farn fod beirmiaid wedi eu hamddifadu o'r cyfle i ennill medal neu ddwy. Ond ar y cyfan, roedd y buddugwyr mae'n debyg yn deilwng iawn o'r gwahanol dlysau a medalau a chwpanau a enillwyd ganddynt.

Ym mhob un o'r meysydd, daeth y clod yn wobwr am ymdrech ac ymroddiad. Y cwbl a welsom ni oedd y perfformiad terfynol, boed gân neu ddawns neu gamp. Ond y tu cefn i'r cyfan roedd oriau – a blynyddoedd hyd yn oed – o ymarfer a pherffeithio crefft. Petai'r holl dlysau'n cael eu rhoi am ymdrech ac ymroddiad, byddai'r rhan fwyaf o'r cystadleuwyr yn deilwng ohonyn nhw. Ond hanfod cystadlu wrth gwrs yw bod rhai'n dod i'r brig ac yn ennill. Yn y pen draw felly, y rhai sy'n ennill y ras neu'n canu orau neu'n neidio bellaf sy'n cael y gwobrau.

Un o'r pethau mwyaf godidog am y Ffydd Gristnogol yw ei bod yn cynnig gwobrau i'r anhaeddiannol. Mae'n wir fod y Beibl, wrth ein hannog i fyw'r bywyd Cristnogoll, yn cymharu'r ymdrech honno ag ymdrech yr athletwr mewn ras. Mae'n rhaid canolbwyntio ac ymroi'n llwyr. Ni allwn ddilyn Iesu heb roi ein holl fryd ar wneud hynny. Wedi'r cwbl, dim ond yr un sy'n gwneud hynny all ennill y wobwr.

Ac eto, nid ein hymdrechion ni yw dechrau'r stori o bell ffordd, ond gras Duw, gan fod y Beibl yn dysgu na all yr un ohonom haeddu ein lle yn rheulu Duw. Chawn ni mo'n derbyn i deulu Duw trwy ein hymdrech a'n gwaith ein hunain. Mae'n rhaid cofio nad oes dim ond perffeithrwydd yn bodloni Duw. Ond waeth beth ein hymdrech, waeth faint o weithredoedd a wnawn, fyddwn ni ddim yn berffaith. Fyddwn ni ddim yn deilwng o'r wobwr.

Gras sy'n dod â ni i deulu Duw, a'r gras hwn yn golygu mai'r annheilwng sy'n cael y wobwr. Ie, y rhai sydd ddim yn haeddu hynny sy'n cael eu derbyn i deulu Duw. Y collwyr, y rhai sy'n bell o fod y gorau, y rhai nad oes gobaith iddyn nhw ddod i'r brig sy'n cael y wobwr, diolch am hynny. Oherwydd onid dyna yw pawb ohonom ni? Rhai sy'n bell o fod yn berffaith, ac yn dangos hynny bob dydd. Ond mae gras yn newid popeth, a'r annheilwng yn cael y cyfan.

Ond beth am yr ymdrech y mae'r Beibl yn sôn amdani? Ai diangen a diwerth yw honno? Ddim o gwbl. Fe ddown i mewn i deulu Duw a chael gafael ar y bywyd Cristnogol trwy ras, heb ei haeddu o gwbl. Ond yna, wedi dod i mewn, mae'n rhaid i'r Cristion wneud pob ymdrech i fyw'r bywyd hwnnw i'r eithaf. Mae'r ymdrech yn dangos ein diolch am gael ein derbyn yn hytrach nag yn fodd o sicrhau'r derbyniad hwnnw.

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'Barna fi, O ARGLWYDD, oherwydd rhodiais yn gywir ac ymddiried yn yr ARGLWYDD heb ballu. Chwilia fi, ARGLWYDD, a phrofa fi, rho brawf ar fy nghalon a'm meddwl. Oherwydd y mae dy ffyddlondeb o flaen fy llygaid, ac yr wyf yn rhodio yn dy wirionedd' (Salm 26:1-3).

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr John H Hughes.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Bydd aelodau Llanllechid yn ymuno â'r oedfaon undebol yng nghapel Jerusalem, Bethesda.

Nid oes oedfa yn Nhalybont nac yn Nant Peris heddiw.

Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod yn dda eu hiechyd ar hyn o bryd.

Angladd

Bu farw Mrs Dilys Williams, 61 Pentre Helen Deiniolen yn Ysbyty Gwynedd ddydd Sadwrn, Gorffennaf 23.

Cynhaliwyd ei hangladd yn ei chartref ac yn Amlogfa Bangor ddydd Mawrth, Awst 2 dan arweiniad y Gweinidog a'r Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn.

Un o ardal Pontarddulais oedd Mrs Dilys Williams yn wreiddiol, ac er iddi fyw yn Ninorwig a Deiniolen am y rhan fwyaf o'i hoes fe gadwodd acen ei bro enedigol i'r diwedd. Bu hi a'i phriod, Richard Owen Williams, yn aelodau ffyddlon yng nghapel Dinorwig i ddechrau, ac yna, wedi iddyn nhw ymgartrefu ym Mhentre Helen, yn Nisgwylfa, ac wedi hynny eto yng Nghefnywaun. Roedd y ddau'n weithgar ac yn gefnogol iawn i waith yr eglwysi, a gwn yn dda am eu cymorth a'u cefnogaeth i mi pan ddeuthum yma'n weinidog.

Roedd marwolaeth ei phriod yn 1999 yn ergyd fawr iddi, ond gyda chymorth ei ffrindiau daliodd i fynychu'r oedfaon yng Nghefnywaun ac Ebeneser nes iddi fethu

â dod wrth i'w hiechyd hithau dorri. Yr oedd yn wraig dawel ac annwyl iawn, yn gywir a glân ei siarad a'i hymddygiad, ac yn gyfaiil a chymdoges ffyddlon. Roedd ei hargyhoeddiadau cryfion wedi ei gwreiddio yn ei ffydd a'i chred yn yr Efengyl. Roedd wedi dod i ffydd yn ifanc, a bu'r Efengyl yn werthfawr yn ei golwg ar hyd y blynyddoedd. Bu'n frwd ei chefnogaeth i waith yr Efengyl ar hyd ei hoes.

Gwerthfawrogi'n fawr iawn gymorth ffrindiau a chymdogion a fu'n gefn iddi, y blynyddoedd diwethaf hyn yn arbennig.

Cydymdeimlwn â'i nai a'i nithoedd, ac a'i chwaer yng nghyfraith, Mrs Eileen Williams, Llanrug a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlo

Estynnwn gydymdeimlad â Mrs Nellie Parry, Deiniolen a Mrs Ada Jones, Brynrefail yn eu profedigaeth o golli eu brawd Mr Hugh Evans, Min-y-don, Brynrefail a fu farw ar Awst 2.

Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun ddydd Mercher, Awst 10.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Mrs Freda Jones a'r teulu o glywed am farwolaeth Mr Derek Jones, 62 Maes Padarn, Llanberis ar Awst 8. Cynhaliwyd ei angladd yn Eglwys Sant Padarn ddydd Mawrth, Awst 16.

Eglwyswr ffyddlon oedd Derek a roes flynyddoedd o wasanaeth i'r Eglwys yng Nghymru, ac i Eglwys Sant Padarn yn fwyaf arbennig. Bu'n Warden yr Eglwys ac yn Ddarllenydd Lleyg am flynyddoedd. Ond cawsom ei gwmi yn gyson yn Capel Coch ar nos Sul, ac yr oedd yn braf ei weld bob amser. Roedd yn barod iawn i dderbyn gwahoddiad i

arwain oedfaon yn y capel hefyd, a chafwyd ei wasanaeth sawl gwaith yn Capel Coch ac yn Neiniolen. Ond fel Eglwyswr ffyddlon, wedi ymddeol o fod yn Ddarllenydd Lleyg ni themlai ei bod yn briodol iddo ddal i wasanaethu yn y capeli, ac yr oeddem ninnau'n deall ac yn gwerthfawrogi hynny'n iawn.

Roedd yn derbyn *Gronyn* yn rheolaidd hefyd ac yn werthfawrogol iawn ohono. Diolchwn i Dduw am ffyddlondeb Derek i waith yr Eglwys ac am ei gymorth parod bob amser.

Y Gadair

Brynhawn Gwener yr Eisteddfod roeddwn yn falch iawn o gael sedd yn y pafiliwn ar gyfer Defod y Cadeirio. O'r sedd honno gallwn weld un o aelodau ffyddlon Bethlehem Talybont, heb fod yn bell oddi wrthyf, ac eto, mewn pafiliwn llawn, yn rhy bell i dynnu ei sylw er mwyn dweud helo.

Doeddwn i ddim wedi sylwi bod ei mab yng nghyfraith yn eistedd yn y rhes o'i blaen. Pe byddwn wedi sylwi, mae'n bosibl y byddwn wedi dyfalu beth fyddai'n digwydd nesaf! Wrth longyfarch Aneirin Karadog o Bontyberem am ennill y Gadair, yr ydym yn llawenhau gyda'i rieni yng nghyfraith, Ifan a Barbara Jones yn eu balchder yn ei lwyddiant. Ers yr Eisteddfod, ganwyd bachgen bach i Laura ac Aneirin, ac felly dymunwn yn dda iddynt, gan longyfrach hefyd fan a Barbara ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

Gwefan

Cofiwch fod gan yr Ofalaeth wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am yr eglwysi a'u gwaith. Mae copi o *Gronyn* yn cael ei osod ar y wefan bob nos Sul, ac felly os na chawsoch gopi yn y capel am unrhyw reswm mae modd ei ddarllen ar y wefan.